Enw

DARLLENWCH
Ioan 12: 1-11

Mae'r stori yma'n sôn am:
Mair yn dangos ei bod yn caru Iesu

Stori 3 Caru Iesu

Ydych chi wedi rhoi anrheg i rywun i ddiolch iddyn nhw am fod yn garedig i chi?



Roedd Mair a Martha'n falch iawn fod Iesu wedi rhoi Lasarus yn ôl iddyn nhw. Roedden nhw eisiau diolch iddo felly dyma nhw'n trefnu swper arbennig iddo.

Daeth llawer o bobl i gael bwyd gyda nhw ond Iesu oedd yr un mwyaf pwysig.

Roedd Mair eisiau gwneud rhywbeth arbennig i ddangos ei bod yn caru Iesu. Roedd ganddi botel o bersawr drud a dyma hi'n arllwys y persawr dros draed Iesu. Yna fe sychodd hi draed Iesu â'i gwallt. Roedd arogl da y persawr yn llenwi'r tŷ. Roedd y persawr yn ddrud iawn ond gan fod Iesu mor arbennig, roedd Mair eisiau ei roi i gyd iddo ef.

Rhowch gylch o gwmpas y llun sy'n dangos beth roddodd Mair i Iesu.

Lle roddodd Mair ei anrheg? Dros d _ _ _ _ Iesu.

Pan fyddwn ni'n meddwl faint mae Iesu wedi'n caru ni a'i fod wedi rhoi ei fywyd i'n hachub ni, fe ddylen ni fod eisiau ei garu ef hefyd.

Lliwiwch yr adnod yma o'r Beibl.

"Yr ydym ni'n caru, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni."

1 Ioan 4: 19